Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Diwygio Rheolau Sefydlog: Trefniadau cadeirio Pwyllgor y Llywydd

Mehefin 2024

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy’n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell mewnosod Rheol Sefydlog 18B.3A newydd sy'n caniatáu i Bwyllgor y Llywydd benodi Cadeirydd dros dro drwy gydol cyfarfod o'r pwyllgor yn absenoldeb ei Gadeirydd parhaol.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynnig i ddiwygio’r Rheolau Sefydlog fel yr amlinellir yn Atodiad A.

# Cynnwys

**1. Y cefndir ........ 3**

**2. Penderfyniad ........ 3**

**Atodiad A: Newidiad i Reol Sefydlog, a nodiadau esboniadol........ 5**

**Atodiad B: Rheol Sefydlog 18B fel y'i diwygiwyd........ 6**

# 1. Y cefndir

**1.** Sefydlwyd Pwyllgor y Llywydd gan baragraff 16A o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000), yn dilyn diwygiadau a wnaed i'r Ddeddf honno gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

**2.** Mae paragraff 16A (6) yn darparu bod yn rhaid i'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd gadeirio'r Pwyllgor. Y Dirprwy Lywydd sy'n cadeirio'r Pwyllgor ar hyn o bryd. Mae gofynion pellach yn ymwneud ag aelodaeth y Pwyllgor wedi'u cynnwys yn Rheol Sefydlog 18B - gan gynnwys bod yn rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid fod yn aelod o'r Pwyllgor.

**3.** Mae Rheol Sefydlog 18B.4 yn datgymhwyso Rheol Sefydlog 17.22 sy'n caniatáu i bwyllgorau eraill benodi cadeirydd dros dro yn absenoldeb y cadeirydd. Mae hyn yn peri problem os yw'r Cadeirydd yn absennol yn annisgwyl, er enghraifft oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd.

**4.** Mae'r darpariaethau deddfwriaethol mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol yn darparu terfynau amser penodol ar gyfer cyflwyno amcangyfrif o incwm a gwariant (cyllideb ddrafft) i Bwyllgor y Llywydd ac i'r Pwyllgor ystyried a gosod adroddiad ar yr amcangyfrif. Cyfle cyfyngedig y mae'r amserlen hon yn ei roi i'r Pwyllgor gyflawni ei swyddogaethau, a byddai'n arbennig o heriol pe bai'r Cadeirydd yn absennol yn annisgwyl yn ystod y cyfnod hwn, gan olygu y byddai'r Pwyllgor yn methu cwrdd.

# 2. Penderfyniad

**5.** Er bod Deddf 2000 yn glir mai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd ddylai ysgwyddo cyfrifoldebau cyffredinol cadeirio, mae cyngor wedi dod i'r casgliad nad oes rhwystr cyfreithiol i Aelod arall gadeirio cyfarfod penodol dros dro yn absenoldeb y Cadeirydd.

**6.** Trafododd y Pwyllgor Busnes y mater hwn ar 14 Mai 2024 a chytunodd i argymell y dylid diwygio Rheol Sefydlog 18B i ychwanegu darpariaeth ar gyfer penodi cadeirydd dros dro at ddiben cyfarfod penodol yn unig. Mae'r gwelliant arfaethedig yn pennu y byddai cadeirydd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19 (y Pwyllgor Cyllid) yn cael eu penodi'n gadeirydd dros dro ar y sail eu bod yn aelod o'r Pwyllgor yn rhinwedd bod yn gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, yn hytrach nag fel cynrychiolydd grŵp gwleidyddol.

**7.** Bydd y newid hwn i'r Rheolau Sefydlog ond yn berthnasol i gyfarfodydd unigol, gan leihau'r risg o darfu ar fusnes Pwyllgor y Llywydd o ganlyniad i absenoldeb annisgwyl ei Gadeirydd.

**8.** Ar 11 Mehefin 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig y newid i'r Rheolau Sefydlog a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.

# Atodiad A: Newidiad i Reol Sefydlog, a nodiadau esboniadol

| RHEOL SEFYDLOG 18B – Goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol | |
|---|---|
| **Aelodaeth Pwyllgor y Llywydd** | **Cadw'r pennawd** |
| 18B.3. Rhaid i'r Pwyllgor gael ei gadeirio gan y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd, ond dim ond wrth arfer pleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20 y caniateir i'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd bleidleisio. | **Cadw'r Rheol Sefydlog**<br>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth |
| 18B.3A. <u>Yn absenoldeb y cadeirydd mewn cyfarfod, caiff y Pwyllgor benodi cadeirydd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19 yn gadeirydd dros dro drwy gydol y cyfarfod hwnnw.</u> | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br>Mae'r Rheol Sefydlog arfaethedig yn sicrhau y gall y Pwyllgor benodi cadeirydd dros dro drwy gydol un cyfarfod. |
| 18B.4. Rhaid i'r cynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes i gytuno ar aelodaeth y Pwyllgor gynnig fel aelodau o'r Pwyllgor:<br>(i) naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn gadeirydd y Pwyllgor;<br>(ii) cadeirydd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19; a<br>(iii) un aelod o bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd. | **Cadw'r Rheol Sefydlog**<br>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth |
| 18B.5. Nid yw Rheolau Sefydlog 17.2A – 17.2T, Rheol Sefydlog 17.6(i), Rheolau Sefydlog 17.7 a 17.8, Rheolau Sefydlog 17.21 a 17.22, na Rheol Sefydlog 17.37 yn gymwys i Bwyllgor y Llywydd. | **Cadw'r Rheol Sefydlog**<br>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth |

# Atodiad B: Rheol Sefydlog 18B fel y'i diwygiwyd

## RHEOL SEFYDLOG 18B – Goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol

### Pwyllgor y Llywydd

18B.1 Wrth gynnig cylchoedd gorchwyl pwyllgorau o dan Reol Sefydlog 16.2 neu 16.3, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod pwyllgor, o'r enw "Pwyllgor y Llywydd", â chyfrifoldeb dros y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 18B.2.

### Swyddogaethau Pwyllgor y Llywydd

18B.2 Mae swyddogaethau Pwyllgor y Llywydd ("y Pwyllgor") wedi'u nodi ym mharagraffau 16A, 16B, 18 ac 20B o Atodlen 1 i Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

### Aelodaeth Pwyllgor y Llywydd

18.B3 Rhaid i'r Pwyllgor gael ei gadeirio gan y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd, ond dim ond wrth arfer pleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20 y caniateir i'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd bleidleisio.

18B.3A Yn absenoldeb y cadeirydd mewn cyfarfod, caiff y Pwyllgor benodi cadeirydd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19 yn gadeirydd dros dro drwy gydol y cyfarfod hwnnw.

18.B4. Rhaid i'r cynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes i gytuno ar aelodaeth y Pwyllgor gynnig fel aelodau o'r Pwyllgor:

- (i) naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn gadeirydd y Pwyllgor;
- (ii) cadeirydd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19; a
- (iii) un aelod o bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd.

18.B5. Nid yw Rheolau Sefydlog 17.2A – 17.2T, Rheol Sefydlog 17.6(i), Rheolau Sefydlog 17.7 a 17.8, Rheolau Sefydlog 17.21 a 17.22, na Rheol Sefydlog 17.37 yn gymwys i Bwyllgor y Llywydd.